**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**

# TR454(Cymraeg) Cwestiynau Cyffredin am Gymorth TB

## Medi 2022

Bwriedir i'r ddogfen hon sy'n cynnwys Cwestiynau Cyffredin am Gymorth TB helpu Milfeddygon Swyddogol a Phartneriaid Cyflawni i ateb cwestiynau y gallant eu cael gan eu cleientiaid wrth drafod Cymorth TB a diben yr ymweliad Cymorth TB.

**C1)** Beth yw Cymorth TB?

Mae Cymorth TB yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu ymweliad arbenigol a ariennir yn llawn gan Filfeddyg Swyddogol hyfforddedig â ffermydd y mae TB yn effeithio arnynt. Yn ystod yr ymweliad, bydd y Milfeddyg Swyddogol o'r practis milfeddygol preifat a ddewiswyd gan y fferm yn rhoi'r canlynol:

- cymorth i'r ffermwr mewn perthynas â'r gyfundrefn rheoli clefydau (gan gynnwys cyfyngiadau)
- cyngor ar leihau effaith y clefyd a deall y risgiau sy'n gysylltiedig ag ef

Mae gan eich Milfeddyg Preifat wybodaeth leol, trosolwg o iechyd eich buches a chydberthynas waith sefydledig â chi.

**C2)** Pryd mae fferm yn gymwys i gael ymweliad Cymorth TB?

Mae ymweliad cyngor milfeddygol ar y fferm Cymorth TB ar gael i'r canlynol:

- pob fferm yng Nghymru lle mae achos o TB
- pob fferm yng Nghymru lle mae achos o TB wedi dod i ben yn ddiweddar
- ffermydd lle nad oes achos o TB ond lle mae prawf ar fuches gyffiniol (CON) wedi'i drefnu am fod achosion o TB yn eu hardal, ar yr amod bod y fferm wedi'i lleoli yn un o'r unedau neu glystyrau gofodol a ddyrannwyd yn benodol o Ardaloedd TB Isel a Chanolradd yng Ngogledd Cymru

**C3)** Mae gan fy fferm Statws Heb TB Swyddogol (OTF) ond mae'n aros am brawf ar fuches gyffiniol. Sut y byddaf yn gwybod a ydw i'n gymwys i gael ymweliad Cymorth TB OTF?

Os byddwch yn gymwys i gael ymweliad, bydd APHA yn anfon llythyr atoch â thaleb ar gyfer ymweliad Cymorth TB OTF. Byddwch yn gymwys i gael yr ymweliad 'Cadw TB Allan' a ariennir yn llawn os bydd eich buches yn aros am brawf ar fuches gyffiniol a bod eich fferm wedi'i lleoli yn:

- Ardal TB Ganolradd y Gogledd (ITBAN), gan gynnwys yr unedau gofodol a symudodd dros dro i ITBAN o'r Ardal TB Isel ym mis Tachwedd 2021
- Clwstwr Pennal sy'n cwmpasu ffermydd penodol yn yr Ardaloedd TB Isel a Chanolradd ger Pennal

**C4)** Sut y gallaf drefnu ymweliad Cymorth TB?

Er mwyn ei gwneud yn haws cael gafael ar gymorth, os bydd eich fferm yn gymwys i gael ymweliad Cymorth TB neu os bydd achos o TB ar eich fferm wedi dod i ben yn ddiweddar, caiff eich Milfeddyg Preifat gyfarwyddyd yn awtomatig i gysylltu â chi er mwyn trefnu ymweliad Cymorth TB â'ch fferm. Caiff y cyfarwyddyd hwn ychydig wythnosau ar ôl dechrau achos o TB ac unwaith eto yn union ar ôl i achos o TB ddod i ben.

Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen yn orfodol ac, felly, gallwch ddewis optio allan. Bydd APHA yn anfon Llythyr/Taleb Ymweliad Cymorth TB â Fferm sy'n esbonio rhaglen Cymorth atoch.

Os bydd prawf ar fuches gyffiniol wedi'i drefnu ar gyfer eich buches a'i bod yn gymwys i gael ymweliad Cymorth TB OTF, bydd APHA yn anfon taleb Ymweliad â Fferm sy'n esbonio sut y gallwch drefnu ymweliad atoch. Nid yw'r rhaglen hon yn orfodol. Os bydd eich fferm yn gymwys, gallwch wneud cais am ymweliad unrhyw bryd tra bydd eich buches yn mynd drwy'r gyfundrefn profi buches gyffiniol, ar yr amod y bydd eich buches yn parhau i gadw ei Statws Heb TB Swyddogol. Os bydd achos o TB yn eich buches, byddwch yn gymwys i gael ymweliad Cymorth TB ar gyfer Achos o TB.

Gallwch drefnu ymweliad neu ddewis peidio â chael ymweliad mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- dychwelyd Taleb Ymweliad Cymorth TB â Fferm, a anfonwyd atoch gan APHA Cymru, drwy'r post
- anfon neges e-bost i flwch post Cymorth TB APHA Cymru APHAWalesCymorthTB@defra.gov.uk (mae'r cyfeiriad e-bost wedi'i nodi ar y daleb hefyd)
- ffonio swyddfa APHA Cymru ar 0300 303 8268 a gofyn am gael siarad â thîm gweinyddol Cymorth TB
- drwy eich Milfeddyg Preifat, Practis eich Milfeddyg Swyddogol neu'ch Partner Cyflawni a all gysylltu ag APHA Cymru ar eich rhan

**C5) Am faint y bydd ymweliad Cymorth TB yn para?**

Ni fydd yr ymweliad Cymorth TB cyntaf a gewch yn ystod achos o TB yn para mwy na thair awr. Os bydd eich achos o TB wedi dod i ben yn ddiweddar ac nad ydych wedi cael ymweliad Cymorth TB eisoes yn ystod yr achos o TB, bydd yr ymweliad hwn hefyd yn cymryd tair awr.

Os byddwch wedi cael ymweliad Cymorth TB tra roedd yr achos o TB yn eich buches yn parhau, bydd yr ymweliad a gynhelir ar ôl diwedd yr achos o TB yn para awr.

Mae ymweliad ‘Cadw TB Allan’ Cymorth TB ar gyfer buchesi OTF yn para tair awr.

**C6)** Beth fydd yn digwydd yn ystod ymweliad Cymorth TB?

Yn ystod yr ymweliad bydd y Milfeddyg Preifat yn gwneud y canlynol:

- trafod y sefyllfa TB bresennol ar eich fferm ac yn yr ardal

- cerdded o gwmpas y fferm, yn cynnwys yr adeiladau a'r ffiniau lle y bo'n bosibl, a thrafod risgiau y mae'n eu nodi gyda chi
- rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â'r clefyd a'r ffyrdd y gall heintiau ledaenu
- rhoi gwybodaeth i chi am brosesau a mesurau rheoli yn ystod achos o TB
- ymchwilio i ddulliau rheoli ar eich fferm er mwyn asesu'r risg o gyflwyno a lledaenu'r clefyd a rhoi cyngor ar sut i leihau'r risg hon
- rhoi cyngor ar fioddiogelwch a'r ffordd orau o amddiffyn eich buches rhag cyflwyno a lledaenu TB
- asesu a rhoi cyngor ar opsiynau ar gyfer y dyfodol o ran parhad busnes os ydych (neu pe baech) yn profi achos o TB ar eich fferm
- rhoi cyngor i chi ar arfer gorau i leihau'r tebygolrwydd o achos o TB ar eich fferm
- gwneud argymhellion i helpu i ddileu TB os oes achos o TB yn eich buches

**C7)** Rwyf eisoes wedi cael ymweliad ymchwilio i glefyd (a elwir yn ymweliad Ffurflen ar gyfer Rhoi Gwybod am Glefyd (DRF)) gan un o filfeddygon APHA am fod achos o TB yn fy muches, pam mae angen i mi gael ymweliad Cymorth TB? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ymweliad DRF gan APHA ac ymweliad Cymorth TB?

Caiff ymweliad DRF ei gynnal ar ddechrau achos o TB. Caiff ei gynnal gan un o Filfeddygon APHA Cymru a, lle y bo'n bosibl, hwn fydd Milfeddyg eich Achos o TB. Diben Ymweliad DRF yw ymchwilio i darddiad y clefyd a rhoi cyngor i chi ar y prosesau a'r mesurau rheoli statudol sy'n gymwys ar ôl i adweithyddion TB gael eu canfod.

Caiff ymweliad Cymorth TB ei gynnal gan eich Milfeddyg Preifat eich hun a gellir ei drefnu ar adeg sy'n gyfleus i chi unrhyw bryd yn ystod eich Achos o TB. Gallwch ddewis cael yr ymweliad ychydig yn ddiweddarach yn ystod yr achos o TB, pan fydd rhagor o ganlyniadau ar gael a'ch bod wedi cael cyfle i ystyried effaith yr achos o TB a pha gamau pellach y gallai fod angen eu cymryd. Gallwch hefyd wneud cais am ymweliad Cymorth TB o fewn deufis i ddiwedd eich Achos o TB.

**C8)** Hoffwn gael Ymweliad Cymorth TB ond rwy'n rhy brysur ar hyn o bryd, a oes modd cynnal yr ymweliad rywbryd yn y dyfodol?

Oes, gellir trefnu i'r ymweliad Cymorth TB gael ei gynnal ar adeg sy'n gyfleus i chi unrhyw bryd yn ystod eich Achos o TB. Gallwch hefyd gael ymweliad Cymorth TB o fewn deufis i ddiwedd eich Achos o TB. Gallwch drefnu ymweliad Cymorth TB OTF os byddwch wedi cael taleb Cymorth TB drwy gysylltu â'ch Milfeddyg Preifat ar ôl i chi gael eich hysbysu bod disgwyl i'ch buches gael prawf ar fuches gyffiniol.

Pan fyddwch yn barod am ymweliad, rhowch wybod i'ch Milfeddyg Preifat neu APHA Cymru.

**C9)** Pa wahaniaeth a wnaiff i'r achos o TB ar fy fferm?

Bydd gwell gwaith tîm rhyngoch chi, eich Milfeddyg Preifat a Milfeddygon APHA Cymru yn helpu i ddeall yr achos o TB ar eich fferm a rhoi argymhellion i chi sydd wedi'u teilwra at eich busnes ffermio.

**C10)** Rwyf wedi cael llythyr yn cadarnhau na chanfuwyd unrhyw friwiau sy'n nodweddiadol o TB yn yr anifeiliaid a gafodd eu symud oddi ar fy fferm a'u lladd, pam byddai angen i mi gael ymweliad Cymorth TB?

Mae'r prawf croen twbercwlin a'r profion gwaed ar gyfer TB yn canfod ymateb imiwnyddol yn yr anifail. Mae'r ymateb hwn yn digwydd cyn y gellir canfod unrhyw arwyddion o TB pan gaiff yr anifail ei ladd. Felly, gall anifeiliaid fod ar gamau cynnar clefyd pan ganfyddir eu bod yn adweithyddion a'u lladd o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, ar y cam hwn, gall yr anifeiliaid ledaenu clefyd i anifeiliaid eraill o hyd ac, felly, er ei bod yn bosibl na chanfyddir unrhyw arwyddion pan gânt eu lladd, gall yr anifeiliaid beri risg i wartheg eraill Gall eich Milfeddyg Preifat drafod hyn ymhellach gyda chi, a sut i leihau'r risg i wartheg eraill, yn ystod yr ymweliad Cymorth TB.

**C11)** Beth yw manteision ymweliad Cymorth TB o ystyried bod Rhaglen Dileu TB Llywodraeth Cymru yn anwybyddu moch daear?

Er bod difa moch daear wedi'i wahardd yng Nghymru, nid yw Rhaglen Dileu TB Llywodraeth Cymru yn anwybyddu moch daear ac mae'n mynd i'r afael â'r rhan y mae bywyd gwyllt yn ei chwarae wrth ledaenu TB mewn sawl ffordd. Mae cynllun Moch Daear Marw Cymru Gyfan, Cynllun Grant Brechu Moch Daear a chymorth ar gyfer ymchwil i TB gan gynnwys ffactorau sy'n ymwneud â bywyd gwyllt, oll yn enghreifftiau. Mae annog gwelliannau i fioddiogelwch yn y diwydiant ffermio yn elfen bwysig o'r Rhaglen ac mae'r ymweliadau Cymorth TB yn rhan o hyn. Yn ystod yr ymweliad Cymorth TB, gall eich Milfeddyg Preifat roi argymhellion wedi'u teilwra'n benodol y gallwch eu rhoi ar waith nawr er mwyn diogelu eich gwartheg rhag y posibilrwydd y cânt eu heintio gan foch daear a lleihau'r risg y bydd y clefyd yn dychwelyd neu'n cael ei gyflwyno i'ch fferm yn y dyfodol.

**C12)** Os caf Ymweliad Cymorth TB, a fydd unrhyw gosbau os na fyddaf yn cymryd unrhyw gamau gwella a argymhellir?

Na fydd, bydd yr argymhellion a roddir i chi gan eich Milfeddyg Preifat eich hun neu ar ôl ymweliad Cymorth TB yn rhai cynghorol er mwyn helpu i wella mesurau rheoli clefydau a lleihau risgiau yn y dyfodol. Rydym yn eich cynghori'n gryf i gymryd y camau hyn gan y bwriedir iddynt eich helpu chi ac iechyd eich gwartheg.

**C13)** A all yr Ymweliad Cymorth TB gynnwys mwy na dim ond siarad am TB, a all fod yn drafodaeth gyfannol ynghylch iechyd fy muches?

Gall, mae trafod iechyd cyffredinol eich buches yn rhan hanfodol o Gymorth TB.

**C14)** Rwyf wedi gweld taflen Cymorth TB a hoffwn gael Ymweliad Cymorth, ond gan nad oes unrhyw achos o TB ar fy fferm ar hyn o bryd ac am nad oes unrhyw achos o TB wedi bod arni yn ddiweddar – a allaf gael ymweliad o hyd?

Gallwch, os ydych yn gymwys i gael ymweliad Cymorth TB OTF am fod eich buches yn cael profion buches gyffiniol a bod eich fferm yn yr ardaloedd penodol yng Ngogledd Cymru. Bydd APHA wedi anfon taleb Ymweliad Cymorth TB atoch.

Os nad ydych yn gymwys, gallwch drefnu i'ch Milfeddyg Preifat gynnal ymweliad cynllunio iechyd buches.

(h) Hawlfraint y Goron 2021

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Diogelu Data:
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.